# Rheoli contractau yn erbyn cyllidebau y cytunwyd arnynt

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn disgrifio sut i reoli contractau yn erbyn cyllidebau y cytunwyd arnynt.

Mae'r safon hon yn cynnwys:

- datblygu a gweithredu systemau rheoli maint a chost
- cyfrifo gwerthoedd a maint y gwaith a data costau o amcangyfrifon maint y gwaith a chyfraddau tâl.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer rheolwyr contract, arolygwyr, prynwyr a rheolwyr ansawdd.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. datblygu a gweithredu'r systemau rheoli maint a chostau perthnasol er mwyn rheoli contractau yn erbyn cyllidebau y cytunwyd arnynt, a rhoi arwydd o amrywiadau
2. casglu, cofnodi a throsglwyddo data ar faint a chost, yn unol â gofynion y cwmni
3. cyfrifo'r gwerthoedd gwaith a maint a data cost o amcangyfrifon maint y gwaith a chyfraddau tâl
4. paratoi data maint a chost yn gywir a'i gyflwyno ar fformat fydd o gymorth i wneud penderfyniadau
5. nodi amrywiadau a thueddiadau o ran data maint a chost, meintioli a chostio'r rhain a'u cofnodi ac adrodd arnynt, yn unol â gofynion y cwmni
6. archwilio unrhyw amrywiadau a chytuno ar weithredu perthnasol a'i roi ar waith
7. datblygu a gweithredu systemau i nodi cyfleoedd ar gyfer arbedion cost

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i ddatblygu a gweithredu'r systemau rheoli maint a chost perthnasol i reoli contractau yn erbyn cyllidebau y cytunwyd arnynt, a rhoi arwydd o'r amrywiadau
2. sut i gasglu a chofnodi data maint a chost a'i drosglwyddo, yn unol â gofynion y cwmni
3. sut i gyfrifo gwerth y gwaith a data maint a chost o amcangyfrifon maint y gwaith a chyfraddau tâl
4. sut i baratoi a chyflwyno data maint a chost yn gywir ar fformat fydd yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau
5. sut i nodi amrywiadau a thueddiadau mewn data maint a chost
6. sut i feintioli a chostio tueddiadau mewn data maint a chost
7. sut i archwilio unrhyw amrywiadau a chytuno ar gamau priodol a'u rhoi ar waith
8. sut i roi systemau ar waith i nodi cyfleoedd ar gyfer arbedion cost

Rheoli contractau yn erbyn cyllidebau y cytunwyd arnynt

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANFe20 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Ffensio |
| **Cyfres/Set** | Ffensio |
| **Geiriau Allweddol** | cyllidebau; contractau; costau; maint |